Cylchlythyr mis Ebrill Tyfu Canolbarth Cymru 2026

Wrth i ni symud ymhellach i mewn i 2026, mae momentwm parhaus ar draws Canolbarth Cymru, gyda gweithgarwch yn symud o'r cam cynllunio i'r cam cyflawni. O gymeradwyo'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i fuddsoddiad pellach drwy Fargen Twf Canolbarth Cymru, rydym yn gweld camau pendant yn cael eu cymryd i gryfhau cysylltedd, cefnogi busnesau a chreu'r amodau ar gyfer twf cynaliadwy hirdymor ar draws y rhanbarth.

Mae'r rhifyn hwn yn tynnu sylw at rywfaint o'r cynnydd hwnnw, ynghyd â nifer o gyfleoedd i chi leisio eich barn. Boed hynny'n helpu i lunio dyfodol arloesedd Agri-dechnoleg a Bwyd-dechnoleg neu'n llywio datblygiad sgiliau ar draws y rhanbarth, mae eich barn yn hanfodol (edrychwch ar y ddau arolwg sydd ar agor ar hyn o bryd). Mae'r mewnwelediad a dderbyniwn gan fusnesau, rhanddeiliaid a chymunedau yn llywio ein dull gweithredu'n uniongyrchol—gan sicrhau bod gweithgarwch yn adlewyrchu anghenion gwirioneddol ar lawr gwlad. Heb eich mewnbwn, ni allwn dargedu cymorth yn effeithiol na pharhau i symud blaenoriaethau yn eu blaen mewn ffordd sy'n sicrhau effaith ystyrlon i Ganolbarth Cymru.

Tîm Tyfu Canolbarth Cymru

Clawr: Gwybodaeth bysiau amser real yn cael ei harddangos yn safle bws Aberaeron, Ceredigion

Cynnwys

- Cymeradwyo Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru
- Taflu goleuni ar wybodaeth fysiau amser real ledled Canolbarth Cymru
- Bargen Twf Canolbarth Cymru yn sicrhau cyllid pellach i gefnogi cynnydd rhanbarthol
- Dweud eich dweud: llunio arloesedd mewn Agri-Dechnoleg a Bwyd-Dechnoleg
- Troi her ffermio yn ased ynni lleol
- Helpwch i lunio datblygiad sgiliau yn y dyfodol a darpariaeth alwedigaethol ôl-16 ar draws Canolbarth Cymru
- Cysylltu arloesedd a busnes yng Nghanolbarth Cymru
- Croesawu aelodau newydd i'r tîm

Cymeradwyo Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru, a ddatblygwyd gan Tyfu Canolbarth Cymru fel Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru, mewn partneriaeth â Chynghorau Sir Ceredigion a Phowys, bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

O ganlyniad, mae ychydig dros £13 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu i wella trafnidiaeth ledled Canolbarth Cymru, wrth i'r rhanbarth symud o gynllunio strategol tuag at welliannau ymarferol ar lawr gwlad.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i lunio drwy ymgysylltu â chymunedau, busnesau a rhanddeiliaid ledled Canolbarth Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft yn gynnar yn 2025, gan wahodd pobl i rannu eu profiadau o deithio yn y rhanbarth a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Tynnodd yr adborth sylw at bwysigrwydd llwybrau cerdded a beicio mwy diogel, trafnidiaeth gyhoeddus well, gwell cysylltedd gwledig ac atebion trafnidiaeth sy'n adlewyrchu daearyddiaeth a chymeriad Canolbarth Cymru. Mae hyn wedi llywio'r cynllun terfynol a'r cynlluniau sydd bellach yn cael eu datblygu.

Mae'r cynlluniau sy'n cael eu symud ymlaen yn cynnwys:

• Cam 1 o waith teithio llesol Glannau Afon y Drenewydd

• Cam 1 o welliannau teithio llesol rhwng Aberhonddu a Groesffordd

• Cam 1 o drawsnewid Stryd Fawr Aberhonddu

• Gwelliannau i seilwaith bysiau ar draws y ddau awdurdod lleol

• Ehangu seilwaith gwefru cerbydau trydan ar draws y ddau awdurdod lleol

• Cwblhau gwelliannau troedffordd Waunfawr i IBERS

• Cam 1 o welliannau Cylchfan Ridgeway

Darllenwch y stori lawn yma.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol llawn bellach ar gael ar ein gwefan.

Taflu goleuni ar wybodaeth fysiau amser real ledled Canolbarth Cymru

Mae teithwyr ledled Powys a Cheredigion yn parhau i elwa ar wybodaeth fysiau amser real sy'n cael ei harddangos mewn safleoedd allweddol — gan helpu i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfleus, dibynadwy ac yn haws i'w defnyddio.

Mae sgriniau arddangos electronig, sydd wedi'u gosod mewn nifer o leoliadau ledled y rhanbarth dros y blynyddoedd diwethaf, yn darparu diweddariadau byw ar amserau cyrraedd a gadael bysiau. Er bod llawer o deithwyr eisoes yn gyfarwydd â'r sgriniau, maent yn parhau i fod yn rhan bwysig o wella profiad teithio bob dydd ar draws Canolbarth Cymru.

Mae'r system yn rhoi gwybodaeth gywir, gyfoes i deithwyr, gan eu helpu i gynllunio teithiau gyda mwy o hyder a lleihau amseroedd aros.

Mae'r wybodaeth amser real yn cael ei phweru gan dechnoleg olrhain gan Journeo, sy'n monitro bysiau ar hyd eu llwybrau ac yn diweddaru'r sgriniau ar unwaith i adlewyrchu unrhyw newidiadau, oedi neu darfu.

Wedi'i ddarparu drwy fenter Tyfu Canolbarth Cymru, mae gosod y sgriniau hyn — a gefnogwyd yn wreiddiol gan Gynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS) o dan Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariannwyd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru — yn rhan o ymdrechion ehangach i foderneiddio seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a chefnogi dewisiadau teithio mwy cynaliadwy ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal â diweddariadau teithio byw, mae'r sgriniau hefyd yn cael eu defnyddio i rannu gwybodaeth gyhoeddus bwysig gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys — er enghraifft, negeseuon 'Cofrestru i Bleidleisio' — gan helpu i gadw cymunedau'n wybodus wrth symud.

Mae'r sgriniau wedi'u lleoli ar y coridorau trafnidiaeth canlynol:

- Powys: X76, X77, X85, T4, T6, X44 a X43
- Ceredigion: T5, 460, 430, T1 a T2

Efallai eich bod eisoes yn dechrau gweld cynnwys ymgyrchoedd newydd yn ymddangos ar y sgriniau — gan gynnwys platfform Gyrfaoeddmewn360 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru — sy'n tynnu sylw at gyfleoedd gyrfa lleol a llwybrau i gyflogaeth? Cadwch lygad am careersin360.com.

Gall teithwyr hefyd gael mynediad at wybodaeth amser real drwy apiau symudol a chynllunwyr teithiau ar-lein, gan sicrhau eu bod yn gallu aros yn wybodus ble bynnag y maent.

Mae'r buddsoddiad parhaus hwn yn tynnu sylw at ymrwymiad parhaus ar draws Canolbarth Cymru i wella cysylltedd, gwella profiad teithwyr a chefnogi rhwydwaith trafnidiaeth mwy integredig a hygyrch.

1 - Gwybodaeth bysiau amser real yn cael ei harddangos ar draws Ceredigion a Phowys.

Bargen Twf Canolbarth Cymru yn sicrhau cyllid pellach i gefnogi cynnydd rhanbarthol

Mae Tyfu Canolbarth Cymru wedi croesawu rhyddhau cyfran bellach o gyllid, £11.857m, gan Lywodraethau'r DU a Chymru drwy Fargen Twf Canolbarth Cymru. Mae nifer o brosiectau ar draws Canolbarth Cymru yn symud ymlaen drwy ddatblygu achosion busnes a phrosesau cymeradwyo, gan symud y Fargen Twf yn nes at gyflawni ar lawr gwlad.

Am yr erthygl lawn, ewch i'n gwefan.

Dweud eich dweud: llunio arloesedd mewn Agri-Dechnoleg a Bwyd-Dechnoleg

Gwahoddir busnesau a rhanddeiliaid ledled Canolbarth Cymru i gymryd rhan mewn arolwg byr i helpu llunio dyfodol y Clwstwr Agri-Dechnoleg a Bwyd-Dechnoleg ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru.

Yn agored i aelodau presennol y clwstwr ac i'r rhai nad ydynt yn aelodau, bydd yr arolwg yn helpu i greu darlun cliriach o ymwybyddiaeth, ymgysylltiad ac effaith y gweithgarwch clwstwr a gyflwynir drwy raglen Launchpad Innovate UK.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan fusnesau sydd wedi derbyn cyllid gan Innovate UK neu ffynonellau eraill. Bydd y mewnwelediadau'n ein helpu i ddeall sut mae busnesau'n

manteisio ar gyfleoedd, pa gymorth sydd fwyaf gwerthfawr, a ble y gallai fod rhwystrau i ymgysylltu.

Bydd eich adborth yn llywio gweithgarwch, cymorth a buddsoddiad yn y dyfodol yn uniongyrchol—gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion busnesau ar draws y rhanbarth.

Cymerwch ran yn yr arolwg: https://bit.ly/AgriFoodTechSurvey (Cliciwch ar y tab Iaith ar y dde uchaf i newid i fersiwn Gymraeg yr arolwg.)

Dyddiad cau: 20 Mehefin

Â diddordeb mewn ymuno â'r clwstwr? Dysgwch fwy: https://www.tyfucanolbarth.cymru/TechAmaethTechBwyd

Arolwg Ymgysylltu

Troi her ffermio yn ased ynni lleol

Mae colofn westeion wych gan John Owen, Ymgynghori Lafan Consulting ar wefan Business News Wales yn tynnu sylw at sut mae arloesedd ledled Canolbarth Cymru yn ailystyried y berthynas rhwng amaethyddiaeth, ynni a'r amgylchedd.

Drwy brosiectau fel hyn a gefnogir gennym ni drwy raglen WSRID Llywodraeth Cymru, mae dulliau newydd yn cael eu harchwilio i droi heriau amaethyddol — megis gormodedd o faetholion a rheoli slyri — yn atebion ynni lleol a all leihau pwysau amgylcheddol a chreu gwerth i gymunedau gwledig.

Dyma'n union y math o gydweithio yr ydym am ei weld — yn dod ag amaethyddiaeth, ymchwil ac arloesedd ynghyd i gefnogi economi wledig fwy cynaliadwy a gwydn.

Darllenwch yr erthygl lawn yma.

Dysgwch fwy am y rhaglen WSRID ehangach ar ein gwefan.

Helpwch i lunio datblygiad sgiliau yn y dyfodol a darpariaeth alwedigaethol ôl-16 ar draws Canolbarth Cymru

Rydym yn gwahodd cyflogwyr lleol i gwblhau Arolwg Busnes Sgiliau Rhanbarthol i helpu siapio datblygiad sgiliau a darpariaeth ôl-16 ledled Canolbarth Cymru. Bydd eich adborth yn ein helpu i ddeall anghenion y gweithlu, heriau recriwtio a'r galw am sgiliau yn y dyfodol.

Bydd y canlyniadau'n cefnogi Coleg Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion, a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ddatblygu cynllun darpariaeth ôl-16 cydweithredol sy'n diwallu anghenion sgiliau'r rhanbarth ac yn cefnogi twf economaidd. Bydd yr holl ddata'n cael ei gadw'n ddiogel gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, ac mae cymryd rhan yn wirfoddol.

Cwblhewch yr arolwg erbyn **30 Ebrill 2026**: https://forms.office.com/e/psEbaHFNfj

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Canolbarth Cymru
Mid Wales
Regional Skills Partnership

Cysylltu arloesedd a busnes yng Nghanolbarth Cymru

22 Ebrill 10am-5pm

Bydd Tyfu Canolbarth Cymru yn mynychu'r Gyfnewidfa Arloesi Busnes Canolbarth Cymru sydd ar ddod yng Nghanolfan y Celfyddydau Prifysgol Aberystwyth ac AberInnovation, ochr yn ochr â phartneriaid a busnesau o bob rhan o'r rhanbarth.

Bydd cynrychiolwyr o'n Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Bargen Twf a thimau Ynni yno i gysylltu â busnesau, rhannu mewnwelediadau ac amlygu'r cymorth sydd ar gael i helpu sefydliadau i arloesi, tyfu ac addasu mewn amgylchedd busnes sy'n newid.

Bydd y digwyddiad yn dod â busnesau, sefydliadau cymorth ac arbenigwyr sector ynghyd i archwilio'r prif heriau a chyfleoedd sy'n wynebu'r rhanbarth, gan gynnwys technoleg, cyllid, seiberddiogelwch a'r trawsnewid i sero net.

Dysgwch fwy am y digwyddiad:

https://www.eventbrite.co.uk/e/mid-wales-business-innovation-exchange-tickets-1983361728320?aff=oddtdtcreator

Croesawu aelodau newydd i'r tîm

Rydym yn falch o groesawu nifer o gydweithwyr newydd sydd wedi ymuno â'r tîm yn ddiweddar.

O fewn Swyddfa Rheoli Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru, rydym yn falch o gyflwyno Alex Morgan fel Dadansoddwr Portffolio, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni a chydlynu portffolio'r Fargen Twf.

Rydym hefyd yn croesawu Eleanor Haines, sy'n ymuno â'r tîm Tyfu Canolbarth Cymru ehangach fel Rheolwr Prosiect, gan ddod â phrofiad gwerthfawr i gefnogi buddsoddiad a chyflawni ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal â hyn, rydym yn falch o groesawu Tom Lewis fel Rheolwr Trafnidiaeth Rhanbarthol. Gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol bellach wedi'i gymeradwyo, bydd Tom yn chwarae rôl bwysig wrth symud blaenoriaethau trafnidiaeth ar draws Canolbarth Cymru yn eu blaen a chefnogi'r trawsnewid o gynllunio i gyflawni.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd wrth i ni barhau i symud blaenoriaethau Canolbarth Cymru yn eu blaen.

Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau YouTube, LinkedIn ac Instagram:

www.instagram.com/growingmidwales/

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales